

Crynodeb o gwestiynau ac atebion a rannwyd yn ystod digwyddiadau gwybodaeth Corff Llais y Dinesydd (Ionawr 2022).

Cynhaliwyd y sesiynau hyn er mwyn rhoi cyflwyniad ynglŷn â Chorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn ogystal, rhoddwyd cyflwyniad ynglŷn â rôl, cyfrifoldebau a rhinweddau aelodau Bwrdd y Corff ar gyfer y rheini sy'n ystyried gwneud cais i ymuno â'r Bwrdd.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cwestiynau ac atebion ynghylch:

- Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Aelodaeth Anweithredol o Fwrdd Corff Llais y Dinesydd
- Y broses ymgeisio

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer rôl y Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a chwe Aelod Anweithredol o Fwrdd Corff Llais y Dinesydd yn cau am 4pm ddydd Mawrth 1 Chwefror 2022.

[Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Penodi Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Chwe Aelod Anweithredol - \(tal.net\)](#)
[Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol- Penodi Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a chwe Aelod Anweithredol](#)
[Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud: Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)

Diolch ichi am eich diddordeb mewn ymgeisio.

Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- **A yw Corff Llais y Dinesydd yn cael ei sefydlu mewn ymateb i'r pandemig?**

Nac ydy. Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn - Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol - a oedd yn argymhell sefydlu corff newydd er mwyn cynrychioli llais y dinesydd o fewn y sectorau Iechyd a gofal cymdeithasol. Wedi hyn, cyflwynwyd y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd erbyn hyn) ym mis Mehefin 2019. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2020.

[Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol | LLYW.CYMRU](#)
[Deddf Iechyd a Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020 \(legislation.gov.uk\)](#)

- **Pam yr ydym yn disodli'r Cynghorau Iechyd Cymuned?**

Ers eu sefydlu yn yr 1970au, mae Cynghorau Iechyd Cymuned wedi cyflawni gwaith pwysig a gwerthfawr, ac maent yn parhau i roi cefnogaeth hanfodol i unigolion yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, ceir nifer o anafanteision sylweddol i'w model deddfwriaethol sy'n cyfyngu ar yr arfer o'u swyddogaethau i wasanaethau Iechyd o fewn eu hardaloedd yn unig. Maent hefyd yn cael eu cynnal gan gorff y GIG sy'n eu

rhwystro rhag bod yn gyrrff cyfreithiol ynddynt eu hunain. Golyga hyn bod angen rhoi trefniadau gweithredol cymhleth yn eu lle er mwyn sicrhau eu hannibyniaeth a'u galluogi i weithredu'n effeithiol. Mae'r achos dros newid wedi'i amlinellu ym Memorandwm Esboniadol Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Felly, mae sefydlu Corff Llais y Dinesydd yn sicrhau cyfle gwirioneddol i adnewyddu ac ail-lunio trefniadau er mwyn ceisio barn pobl ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol, a chynrychioli'u buddiannau - yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau corff cadarn ac annibynnol a fydd yn cyflogi ei staff ei hun; yn ymrwymo i'w contractau ei hun, yn dylunio ei systemau ei hun; yn penderfynu ei strwythur ei hun; yn perchnogi ei frand ei hun, yn ogystal â rheoli'r broses o recriwtio a chadw ei aelodaeth o wirfoddolwyr.

[deddf-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-memorandwm-esboniadol.pdf \(llyw.cymru\)](#)

- **A fydd ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn rhan o ddyletswyddau Corff Llais y Dinesydd?**

Bydd Corff Llais y Dinesydd yn ceisio barn pawb yng Nghymru, waeth beth fo'u hoed, ac yn cynrychioli'u buddiannau yn ogystal. Wrth wneud hynny'n effeithiol, bydd angen i'r corff gydweithio'n agos â Chomisiynydd Plant Cymru a phartneriaid eraill yn y sector. O ran ei swyddogaethau yn ymwneud â chwynion ac eiriolaeth, ni fydd Corff Llais y Dinesydd yn cynnig cyngor a chymorth i'r plant a phobl ifanc hynny sydd eisoes â hawliau i'r gefnogaeth hon o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu.

- **A fydd Corff Llais y Dinesydd yn gallu ceisio barn a chynrychioli buddiannau'r rheini sydd â statws ffoaduriaid?**

Bydd. Bydd Corff Llais y Dinesydd yn ymgysylltu â phob grŵp demograffig ledled Cymru. Bydd y corff yn gallu cynnig cyngor a chymorth i unigolion sy'n gwneud cwyn ynghylch gwasanaethau iechyd ac ystod ehangach o wasanaethau gofal cymdeithasol, neu'n ystyried gwneud hynny.

- **A yw cyflwyno corff newydd yn arwain at risg o greu haen arall/pellter rhwng dinasyddion a chyrrff iechyd a gofal cymdeithasol?**

Bydd yr holl ddyletswyddau cyfredol ar gyrrff y GIG ac awdurdodau lleol i gynnwys pobl yn uniongyrchol yn y gwaith o gynllunio a gweithredu eu gwasanaethau yn parhau. Bwriad Corff Llais y Dinesydd yw ychwanegu gwerth, fel ffordd ychwanegol o sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed – gan gynnwys unigolion, cymunedau a'r boblogaeth ehangach.

- **A fydd cydbwysedd ym mlaenoriaethau Corff Llais y Dinesydd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol?**

Mae Gweinidogion wedi nodi'n glir bod diben deublyg i'r Corff a bydd y llythyr cylch gwaith yn atgyfnerthu'r angen i gyflawni ei swyddogaethau ar draws y ddau sector. Cyfrifoldeb allweddol Bwrdd Corff Llais y Dinesydd fydd sicrhau cydbwysedd priodol o ran amcanion a blaenoriaethau'r Corff, bob blwyddyn. Rhaid i hyn gael ei hysbysu gan farn y rhanddeiliaid.

- **Pa mor ddarbwyllol all Corff Llais y Dinesydd fod wrth ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd?**

Bydd Corff Llais y Dinesydd yn ceisio safbwyntiau pobl ar draws sectorau a lleoliadau er mwyn canfod eu profiadau byw o lwybrau gofal, sy'n aml yn ymestyn dros wasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd y corff yn rhannu'r safbwyntiau hyn gyda'r GIG ac awdurdodau lleol, gan gyflwyno sylwadau deallus iddynt ynglŷn â'u gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau bod buddiannau holistaidd defnyddwyr gwasanaeth yn llywio cynlluniau a pholisi, yn gymorth i sicrhau gwelliannau, ac amlygu arferion da o fewn system sy'n fwy integredig.

- **A fydd Corff Llais y Dinesydd yn meithrin perthnasoedd gyda'r Paneli Dinasyddion a sefydlwyd i gefnogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol?**

Bydd Corff Llais y Dinesydd yn meithrin perthnasoedd cryf ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan weithio gyda sefydliadau a fforymau presennol sy'n cynrychioli barn y bobl, gan gynnwys y Panel Dinasyddion, partneriaid trydydd sector a grwpiau cymunedol.

- **Beth fydd y berthynas rhwng Corff Llais y Dinesydd a sefydliadau'r trydydd sector?**

Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd Corff Llais y Dinesydd fel sefydliad annibynnol yn ceisio ymgysylltu a datblygu cysylltiadau sy'n gefnogol i'r ddwy ochr gyda sefydliadau eraill o fewn y sector cyhoeddus, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol ledled Cymru. Bydd yn hollbwysig bod y Corff yn cydnabod rôl y trydydd sector mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a'i gyfraniad sylweddol tuag at y ddarpariaeth o wasanaethau a chefnogaeth i unigolion. Bydd angen i'r corff ddatblygu cysylltiadau cadarn â'i bartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn rhannu gwybodaeth, a dysgu o'r safbwyntiau y maent yn eu cael. Bydd angen sicrhau bod hyn yn llywio unrhyw sylwadau y gall y Corff eu cyflwyno i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol.

- **A fydd Corff Llais y Dinesydd yn cydweithio â darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol neu a fyddant yn cydweithio â chyrrff y GIG ac awdurdodau lleol sy'n comisiynu eu gwasanaethau yn unig?**

Er y bydd Corff Llais y Dinesydd ond yn cyflwyno sylwadau ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol, gall hyn gynnwys gwasanaethau a gomisiynwyd ganddynt gan ddarparwyr annibynnol. O ganlyniad felly, bydd yn hanfodol bod Corff Llais y Dinesydd yn meithrin cysylltiadau yn effeithiol â darparwyr y maent yn dod ar eu traws gan ddatblygu cysylltiadau

adeiladol gyda hwy wrth geisio barn unigolion, neu wrth ddarparu cyngor a chymorth iddynt pan eu bod yn ystyried gwneud cwyn.

- **Pa gefnogaeth fydd ar gael i Gorff Llais y Dinesydd wrth geisio barn pobl a chynrychioli'u buddiannau?**

Wrth ddatblygu eu cysylltiadau â Chorff Llais y Dinesydd, disgwyliwn i'r GIG ac awdurdodau lleol sicrhau cefnogaeth i alluogi'r corff i ddod i gysylltiad â chymaint o bobl ag sy'n bosibl fel eu bod yn gallu rhannu eu barn a'u profiadau o'r gofal maent yn ei gael.

Bydd angen i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gydweithio â'r Corff yn ei ymdrechion i ganfod barn pobl ac wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o weithgareddau a gwasanaethau'r corff. Yn ogystal, rhaid iddynt rannu gwybodaeth y mae'r Corff yn gofyn yn rhesymol amdani; rhoi sylw i sylwadau a wnaed iddynt ynglŷn â'u gwasanaethau, a rhoi sylw i god ymarfer ynghylch mynediad i adeiladau.

Gyda'i gilydd, bydd hyn yn fodd o gefnogi'r Corff i ddod i gysylltiad ag unigolion, ceisio'u barn, cynrychioli'u buddiannau yn gadarn; a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

- **A fydd Corff Llais y Dinesydd yn parhau i chwarae rhan mewn newid gwasanaethau?**

Bydd angen ymgysylltu â Chorff Llais y Dinesydd pan fo'r GIG ac awdurdodau lleol yn cynllunio'u gwasanaethau.

Bydd hyn yn cynnwys cynigion newid gwasanaeth o fewn y GIG ac ymwneud ag awdurdodau lleol wrth gynllunio a gweithredu darpariaethau gofal a chymorth. Bydd hyn hefyd yn cynnwys meithrin cysylltiadau â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth gwblhau asesiadau poblogaeth a pharatoi cynlluniau ardal. Fodd bynnag, gall y Corff gyflwyno sylwadau i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol ynglŷn â'u gwasanaethau, gan gynnwys materion newid gwasanaethau ar unrhyw adeg.

- **Sut fydd y Bwrdd yn cefnogi gwaith eirioli Corff Llais y Dinesydd?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn cynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi swyddogaeth eirioli'r Corff. Bydd y Bwrdd yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod gwasanaethau eirioli'r Corff yn cael eu cyflawni. O ran cyfrifoldeb, ac aelodau'n cymryd diddordeb arbennig yn y maes hwn, dyma rywbeth i'r Bwrdd ei hun ei benderfynu, gan gydbwysu'i holl flaenoriaethau a goblygiadau.

- **A fydd gan Gorff Llais y Dinesydd hawl i roi cymorth eirioli cwynion i unigolion?**

Mae gan nifer o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol – fel ysbytai a chartrefi gofal – drefniadau ar waith ar hyn o bryd i gefnogi pobl i gael gwasanaethau eirioli, o amryw o ffynonellau ac at sawl diben. Bydd hyn yn galluogi unigolion i gael cyngor a chymorth gan Gorff Llais y Dinesydd pan maent yn ystyried gwneud cwyn.

- **A fydd gan Gorff Llais y Dinesydd drefniadau ar waith i reoli unrhyw wrthdaro buddiannau a fydd yn codi wrth geisio barn y cyhoedd ac wrth gynrychioli'r farn hon, yn ogystal â darparu cymorth eirioli i unigolion?**

Bydd Corff Llais y Dinesydd yn datblygu systemau o fewn ei fframwaith llywodraethu a fydd yn sicrhau y bydd unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael eu rheoli'n briodol.

- **Pam nad oes penderfyniad hyd yma ynghylch lleoliad ar gyfer Corff Llais y Dinesydd?**

Ar hyn o bryd, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch lleoliad neu leoliadau ar gyfer Corff Llais y Dinesydd. Bydd strategaeth leoli yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â Bwrdd y Corff er mwyn cefnogi ei staff i weithio mewn modd hyblyg. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r corff i gynrychioli pobl ledled Cymru, i fod yn hygyrch iddynt ac i feithrin cysylltiadau â hwy yn effeithiol.

- **A fydd gan Gorff Llais y Dinesydd is-grwpiau rhanbarthol?**

Mae'n rhaid i Gorff Llais y Dinesydd weithredu'n effeithiol ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gan sicrhau ei fod yn gallu cynrychioli pobl ledled Cymru, i fod yn hygyrch iddynt ac i feithrin cysylltiadau â hwy yn effeithiol. Nid yw'r Ddeddf yn pennu unrhyw strwythur penodol, mae hyn i'w benderfynu gan y Corff ei hun. Fodd bynnag, bydd y Corff yn gallu sefydlu pwyllgorau ac is-grwpiau a allai fod ar delerau rhanbarthol.

- **A yw Corff Llais y Dinesydd yn unigryw neu a oes cyrff tebyg yn rhannau eraill o'r DU?**

Mae cyrff tebyg yn bodoli yn rhannu eraill o'r DU, er enghraifft *Healthwatch* yn Lloegr, a'r Cyngor Cleifion a Chleientiaid yng Ngogledd Iwerddon. Nid oes ganddynt i gyd yr un swyddogaethau a chyfrifoldebau, ond maent yn ceisio barn pobl ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac maent yn cynrychioli'u buddiannau. Maent hefyd yn cynnig cefnogaeth i unigolion sy'n dymuno gwneud cwyn.

- **Beth yw maint y corff a'r gyllideb a ddisgwylir?**

Bydd Corff Llais y Dinesydd yn cyflogi oddeutu 100 o staff, gydag aelodaeth o wirfoddolwyr ychwanegol. Bydd gan y Corff gyllideb flynyddol oddeutu £4.66miliwn.

- **Ai gweision sifil fydd staff Corff Llais y Dinesydd?**

Na. Bydd Corff Llais y Dinesydd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ond bydd yn gweithredu'n annibynnol i Weinidogion Cymru, y GIG a llywodraeth leol. Bydd y Corff yn gorff corfforaethol ynddo'i hun ac yn gallu cyflogi ei staff ei hun.

- **Sut bydd strwythur staffio Corff Llais y Dinesydd yn edrych?**

Bydd model gweithredu'r Corff yn cael ei gynllunio mewn partneriaeth ag aelodau'r Bwrdd, unwaith y byddant yn eu lle. Bydd strwythur staffio'r corff yn elfen allweddol o'r model gweithredu.

- **Beth fydd strwythur pwyllgor Corff Llais y Dinesydd?**

Bydd model gweithredu a strwythur pwyllgor Corff Llais y Dinesydd yn cael ei gynllunio gan fwrdd Corff Llais y Dinesydd pan fydd wedi'i benodi ond bydd angen dangos llywodraethu cryf ac arfer gorau.

- **A oes unrhyw staff wedi'u penodi eisoes?**

Nid oes unrhyw staff wedi'u penodi hyd yma. Bydd Corff Llais y Dinesydd yn penodi ei staff ei hun, gan ddechrau gyda recriwtio Prif Weithredwr, pan fydd yr Aelodau Anweithredol wedi'u penodi. Bydd staff y Cyngor Iechyd Cymuned yn symud ar draws i Gorff Llais y Dinesydd ym mis Ebrill 2023.

- **Sut fydd staff y Cyngor Iechyd Cymuned yn ffitio i mewn i'r sefydliad newydd?**

Mae gwaith staff y Cyngor Iechyd Cymuned ac aelodau gwirfoddol yn werthfawr iawn ac rydym eisiau eu hannog i drosglwyddo eu sgiliau, eu harbenigedd a'u gallu i'r Corff newydd. Bydd pobl yn cael eu cynnwys a'u cefnogi'n llawn i reoli'r trosglwyddiad, gyda phecyn hyfforddi a datblygu ar gael i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i wneud swyddogaethau ar ran Corff Llais y Dinesydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd y bydd egwyddorion TUPE yn cael eu dilyn yn y broses o drosglwyddo staff.

- **At bwy fydd cwynion am Gorff Llais y Dinesydd yn cael eu gwneud?**

Bydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru'r pŵer i ystyried cwynion a wnaed am Gorff Llais y Dinesydd, yn yr un modd ag y mae ganddo'r pŵer i ystyried cwynion am Gyngorau Iechyd Cymuned ar hyn o bryd.

- **Beth am atebolrwydd i'r Gweinidog neu i Bwyllgor o'r Senedd?**

Bydd Corff Llais y Dinesydd yn gweithredu'n gwbl annibynnol i Weinidogion Cymru a'r Senedd.

Yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, mae Corff Llais y Dinesydd yn gyfrifol am gyhoeddi datganiad o'i bolisi, gan amlinellu sut y mae'n bwriadu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a cheisio barn y cyhoedd. Rhaid iddo hefyd gyhoeddi cynllun blynyddol, gan amlinellu sut y bydd yn arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn, ar ôl ymgynghori â'r rheini y mae'n credu sy'n briodol ar y blaenoriaethau a'r amcanion ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r Ddeddf yn darparu y bydd Gweinidogion Cymru'n penodi Aelodau Anweithredol o Gorff Llais y Dinesydd – trwy gystadleuaeth deg ac agored, drwy'r broses benodiadau cyhoeddus – ac y gallant eu tynnu o'u swydd os ydynt o'r farn nad yw'r person hwnnw'n addas i barhau fel aelod neu os nad yw'n gallu arfer swyddogaethau aelod. Bydd yr Aelodau Anweithredol yn penodi prif weithredwr Corff Llais y Dinesydd.

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru – fel eraill, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymwysterau Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru – bydd Corff Llais y Dinesydd yn cael ei gyllid a'i lythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru ond, fel uchod, bydd ei flaenoriaethau a'i amcanion yn cael eu pennu gan y Corff ei hun.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff lunio adroddiad blynyddol ar ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Rhaid iddo anfon copi at Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Senedd. Bydd hyn yn tynnu sylw Aelodau'r Senedd at weithgareddau Corff Llais y Dinesydd.

- **A yw Comisiwn Bevan yn gwneud gwaith tebyg i Gorff Llais y Dinesydd?**

Bydd Corff Llais y Dinesydd yn gorff cyhoeddus annibynnol, sy'n ceisio barn y cyhoedd yn barhaus ac yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Ar y llaw arall mae Comisiwn Bevan, dan arweiniad Prifysgol Abertawe, yn 'felin drafod' sy'n ceisio herio barn ac ymarfer mewn iechyd a gofal. Mae'n debygol y bydd gan y ddau fuddiannau cyffredin, y byddant yn gallu hysbysu gwaith ei gilydd ac y bydd eu swyddogaethau'n ategu ei gilydd, ond nid yn eu dyblygu.

- **A fydd unrhyw waith hyrwyddo'n cael ei wneud i lansio Corff Llais y Dinesydd?**

Bydd Llywodraeth Cymru'n ariannu ymgyrch gyhoedduswydd sylweddol yn y cyfnod hyd mis Ebrill 2023 i godi ymwybyddiaeth o Gorff Llais y Dinesydd; beth y gall ei wneud; sut y gall gefnogi pobl; a sut y gall pobl gymryd rhan. Wedi hynny, bydd y Corff yn cael ei ariannu i ymgymryd â'i weithgareddau marchnata a chyfathrebu ei hun.

Aelodaeth Anweithredol Bwrdd Corff Llais y Dinesydd

- **Yn y 12 mis cyntaf, o fis Ebrill 2022, pa gymorth fydd ar gael i'r Bwrdd i sefydlu Corff Llais y Dinesydd a'i fframwaith llywodraethu?**

Yn ystod y cyfnod hwn bydd gan y Bwrdd strwythur cefnogi priodol a bydd yn cael y cyngor llywodraethu y mae ei angen i baratoi at pan ddaw Corff Llais y Dinesydd yn gwbl weithredol o 1 Ebrill 2023. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r Bwrdd, ac eraill, yn ystod y cyfnod sefydlu, gan sicrhau bod y Corff yn cadw annibyniaeth ac yn gosod ei gyfeiriad strategol ei hun.

- **A fydd gan aelodau'r Bwrdd rôl allweddol o ran meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid?**

Bydd angen i Gorff Llais y Dinesydd sefydlu ei hun fel partner allweddol mewn iechyd a gofal cymdeithasol gan feithrin cysylltiadau cryf â'r cyhoedd, a phartneriaid yn y sector cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol, er budd dinasyddion. Ar ôl eu penodi, bydd gan aelodau'r Bwrdd rôl bwysig o ran creu cysylltiadau ar gam cynnar i gyflwyno'r corff newydd, hyrwyddo ei ddiben a llunio perthnasoedd adeiladol.

- **Ydych chi'n chwilio am brofiad iechyd penodol e.e. meddygol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd?**

Mae'n hanfodol sicrhau bod gan y Bwrdd yr ystod gywir o sgiliau a phrofiad i sicrhau llwyddiant Corff Llais y Dinesydd. Mae'r Wybodaeth i Ymgeiswyr yn manylu ar y profiad angenrheidiol, a phrofiad iechyd a/neu gofal cymdeithasol yw dau o'r meysydd a restrwyd. Nid yw'n gofyn am broffesiwn neu grŵp penodol.

Wrth benodi Aelodau Bwrdd, bydd yr ystod o sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y Bwrdd cyfan yn cael ei ystyried ac ni fydd ffocws ar un set benodol o brofiadau neu sgiliau.

[Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr Corff Llais y Dinesydd Cadeirydd Dirprwy Gadeirydd a 6 x Aelod Anweithredol CVB FINAL 040122 \(3\).pdf](#)

- **A fydd cynrychiolaeth deg o bob rhan o Gymru ar Fwrdd Corff Llais y Dinesydd?**

Mae'r pandemig wedi gwella gallu pobl i weithio o bell, gan wneud y swyddi hyn yn fwy hygyrch a dod â chydaddoldeb i'r bobl hynny sydd efallai'n byw mewn ardaloedd mwy anghysbell. Bydd angen i'r Bwrdd ddeall diwylliant Cymru a'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion ar draws Cymru, wrth ystyried eu barn. Er nad oes angen i Aelodau'r Bwrdd fyw mewn gwahanol rannau o Gymru, gellir ystyried hyn wrth ystyried cyfansoddiad cyffredinol y Bwrdd.

- **A oes angen i ymgeiswyr fyw yng Nghymru?**

Nid yw'n angenrheidiol i aelodau'r Bwrdd fyw yng Nghymru ond dylent fod â dealltwriaeth drylwyr o ddiwylliant Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg.

- **A ydych yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd yr aelodau Bwrdd 'Cymraeg yn Hanfodol' yn chwarae rhan benodol ar y Bwrdd? Os felly, a wnewch chi ymhelaethu ar hyn?**

Mae meysydd allweddol y byddem yn ystyried rhoi cyfle i'r Aelodau Bwrdd Cymraeg yn Hanfodol chwarae rhan benodol ynddynt, gan gynnwys meithrin cysylltiadau â siaradwyr Cymraeg a chefnogi Corff Llais y Dinesydd i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, gan ddiwallu gofynion Safonau'r Gymraeg.

- **A fydd cydbwysedd y bwrdd yn cynnwys cefndir o'r trydydd sector?**

Mae'r profiad a'r sgiliau sy'n ofynnol gan Aelodau'r Bwrdd yn eang ac yn amrywiol. Mae'n debygol y bydd gan y rheini sy'n gweithio yn y trydydd sector y sgiliau a'r profiad gofynnol, ac rydym yn eu hannog i wneud cais.

Fel y nodwyd uchod, bydd yn hanfodol bwysig i Gorff Llais y Dinesydd sefydlu perthnasau effeithiol gyda'r trydydd sector a gellir cyflawni hyn mewn ffyrdd eraill ac eithrio cael aelod Bwrdd sydd â phrofiad o'r trydydd sector.

- **Sut byddwch yn sicrhau amrywiaeth ar Fwrdd Corff Llais y Dinesydd? Er enghraifft, efallai y bydd ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig yn teimlo nad oes ganddynt y profiad angenrheidiol. A fydd cydbwysedd rhwng y rhywiau? A yw amrywiaeth yn cynnwys ymgeiswyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Croesewir ceisiadau gan unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac anogir yr holl ymgeiswyr i ddangos eu profiad byw ac esbonio sut y bydd hyn yn cyfrannu at effeithiolrwydd y Bwrdd. Bydd amrywiaeth a gallu'r Bwrdd i geisio barn dinasyddion Cymru, a'u cynrychioli, yn cael ei ystyried wrth wneud penodiadau i'r Bwrdd.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ac ymgeiswyr a allai fod o dan anfantais o safbwynt economaidd-gymdeithasol.

- **A fyddai ymgeiswyr ag anableddau yn gallu gweithio/mynychu cyfarfodydd o bell?**

Croesewir ceisiadau gan bobl anabl a darperir addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio. Pe bai'r unigolyn yn cael ei benodi, byddai addasiadau rhesymol hefyd yn cael eu gwneud i sicrhau ei fod yn gallu bodloni gofynion y rôl, yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

[Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").]

- **Hyd yn oed os ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol, a all oedran fod yn broblem?**

Rydym yn annog ceisiadau gan grŵp amrywiol o ymgeiswyr, gan gynnwys pobl o ystod oedran eang.

- **A ystyrir fod buddiannau'n gwrthdaro os bydd un o'r canlynol yn gwneud cais:**
 - a) unigolyn a gyflogir gan gorff y GIG neu awdurdod lleol;**
 - b) unigolyn a gyflogir gan ddarparwr iechyd neu ofal cymdeithasol preifat; neu**
 - c) cynghorydd awdurdod lleol?**

Mae tudalen 13 o'r Wybodaeth i Ymgeiswyr yn rhoi manylion y meini prawf sy'n anghymhwyso unigolyn rhag cael ei benodi i Fwrdd y Corff Llais y Dinesydd. Nid yw'r meini prawf uchod yn anghymhwyso unigolyn.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn eu cais. Bydd y potensial tebygol ar gyfer unrhyw wrthdaro yn cael ei ystyried fesul achos a byddai'n cael ei archwilio yn y cyfweiliad pe bai'r ymgeisydd yn symud ymlaen i'r cam hwnnw.

[Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr Llais y Dinesydd Cadeirydd Dirprwy Gadeirydd a 6 x Aelod Anweithredol CVB 040122 TERFYNOL \(3\).pdf](#)

- **Os ydych yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned ar hyn o bryd, a fyddai'n rhaid i chi ymddiswyddo pe bai eich cais i ymuno â Bwrdd Corff Llais y Dinesydd yn llwyddiannus?**

Mae hyn yn annhebygol o fod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, byddai unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ystyried a'i drafod gyda'r unigolyn dan sylw.

- **A fydd y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser fel gweithiwr sector cyhoeddus yn cael tâl am y diwrnodau nad ydynt yn gweithio y maent yn eu neilltuo i Gorff Llais y Dinesydd?**

Os cyflogir Aelod o'r Bwrdd yn rhan-amser ac y bydd yn ymgymryd â'r rôl y tu allan i'w oriau cyflogaeth, bydd yn cael ei dalu ar y gyfradd briodol ar gyfer y swydd.

Mae rhai cyflogwyr yn caniatáu amser rhesymol i ffwrdd o'r gwaith i'w gweithwyr gyflawni dyletswyddau cyhoeddus penodol. Os bydd cyflogwr yn caniatáu amser i unigolyn ymgymryd â rôl Aelod o'r Bwrdd a'i fod yn ei dalu am yr amser hwn ni fydd ganddo hawl i hawlio tâl pellach gan Gorff Llais y Dinesydd, ond efallai y caiff hawlio treuliau rhesymol.

Dylai ymgeiswyr drafod eu hamgylchiadau gyda'u cyflogwr, Llywodraeth Cymru a'r Corff Llais y Dinesydd, os cânt eu penodi.

- **A fydd yr ymrwymiad amser yn parhau i fod yn 4-5 diwrnod gwaith y mis neu a yw hyn yn debygol o newid?**

Yr ymrwymiad amser o 4 diwrnod y mis ar gyfer Aelod Anweithredol a 5 diwrnod y mis i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yw'r isafswm ymrwymiad amser sydd ei angen i ymgymryd â'r rôl.

Efallai y bydd adegau pan fydd angen ymrwymo mwy o ddiwrnodau mewn mis. Fodd bynnag, gan mai sefydliad a Bwrdd newydd yw hwn, bydd yn bwysig i'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Aelod Anweithredol weithio allan a chytuno ar y rolau a'r dyletswyddau sydd i'w cyflawni, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu dosbarthu'n deg ac nad ydynt yn ormodol.

Mae'n debygol y bydd yr ymrwymiad amser yn cael ei ledaenu ar draws y mis, fodd bynnag, ni fydd yn bosibl gwybod hyn yn bendant hyd nes y bydd Cadeirydd wedi'i benodi, hyd nes daw'r Bwrdd yn gwbl weithredol, a hyd nes y bydd wedi cytuno ar gynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn. Wrth i'r sefydliad esblygu, mae'r rolau a gyflawnir gan y Bwrdd hefyd yn debygol o newid a gallai hyn ddarparu ar gyfer hyblygrwydd pellach.

- **Sut y bydd swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Aelodau Anweithredol yn wahanol i rai yr uwch swyddi gweithredol?**

I ddechrau, bydd y Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, chwe Aelod Anweithredol ('yr aelodau anweithredol') a'i Brif Weithredwr, fel ei Swyddog Cyfrifyddu. Gellir penodi cynrychiolydd undeb llafur hefyd yn Aelod Cyswllt, pan ddaw Corff Llais y Dinesydd yn gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2023. Y Prif Weithredwr yw unig aelod gweithredol y Bwrdd.

Rôl y Bwrdd fydd pennu cyfeiriad strategol, diwylliant sefydliadol a goruchwyllo'r sefydliad wrth iddo gyflawni ei nodau a'i amcanion. Mae hyn yn adlewyrchu rôl aelod anweithredol, i benderfynu 'beth' y dylai'r corff ei wneud. Rôl y Prif Weithredwr a staff Corff Llais y Dinesydd, pan fyddant wedi'u penodi, fydd ystyried a gweithio allan 'sut' y bydd hyn yn gweithredu.

- **A fydd gan Fwrdd Corff Llais y Dinesydd fynediad at fecanweithiau cymorth proffesiynol i sicrhau bod ganddo'r arbenigedd sydd ei angen arno i gynrychioli barn y bobl?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu pecyn hyfforddi cychwynnol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr Corff Llais y Dinesydd i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni swyddogaethau ar ei rhan a chyflawni ei rhwymedigaethau statudol. Yn ogystal, bydd rhaglen datblygu sefydliadol ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn eu cynorthwyo i arwain a rheoli'r corff yn effeithiol. Ar ôl hynny, mater i Gorff Llais y Dinesydd fydd penderfynu pa wybodaeth, cyngor ac arbenigedd ychwanegol sydd eu hangen i gefnogi ei waith. Rydym yn rhagweld y bydd yn ffurfio perthynas waith effeithiol gyda phartneriaid ar draws sefydliadau ieuchyd, gofal cymdeithasol a sefydliadau cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol ehangach, er mwyn helpu i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen arni.

Y broses ymgeisio

- **Cynhelir rhai o'r cyfweiliadau ym mis Ebrill 2022 sy'n cyd-fynd â mis Ramadan. A fydd hyn yn cael ei ystyried ar gyfer unrhyw ymgeiswyr Mwslimaidd?**

Bydd. Gofynnwyd am gyngor yn hyn o beth a rhoddir ystyriaeth i sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael eu rhoi o dan unrhyw anfantais.

- **A oes angen cynnwys y disgrifiad o'r rheswm pam yr ydych yn gwneud cais am y rôl o fewn 1000 gair y datganiad personol?**

Rhaid cynnwys paragraff cryno yn amlinellu pam eich bod wedi gwneud cais am y swydd; beth y byddwch yn ei gyfrannu i Gorff Llais y Dinesydd; ac a ydych yn bodloni'r meini prawf 'Cymraeg yn hanfodol'; **o fewn y terfyn 1,000 o eiriau ar gyfer y datganiad personol.**

Bydd Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer dau o'r ymgeiswyr llwyddiannus ac yn ddymunol ond ddim yn hanfodol ar gyfer gweddill y Bwrdd. Bydd pob ymgeisydd yn dangos ymrwymiad i'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ac yn arddangos arweiniad i hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth dwyieithog o fewn y GIG a gofal cymdeithasol.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi'r hyn y maent yn ei ffafrio o ran hyd y penodiad; a pha un o'r swyddi yr hoffent gael eu hystyried ar eu cyfer. **Nid yw hyn yn cyfrif tuag at y terfyn o 1,000 o eiriau.**

- **Pa bryd fydd ymgeiswyr yn cael gwybod a ydynt wedi cael eu gwahodd i ddod i gyfweiliad neu beidio?**

Nid yw'n bosibl rhoi gwybod beth fydd yr union ddyddiad ar gyfer cyfweld ymgeiswyr, os byddant yn mynd ymlaen i'r cam hwn. Mae'r amserlen fel a ganlyn:

Penodi Cadeirydd

Ilunio rhestr fer w/d 14 Chwefror 2022
cyfweiliadau w/d 28 Chwefror 2022

Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau Anweithredol

Ilunio rhestr fer w/d 14 Chwefror 2022
cyfweiliadau w/d 4 Ebrill 2022

Dylem fod wedi penodi pob aelod yn ystod mis Ebrill 2022.